



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DL233

Amseru Arferol

Teitl: Peidio ag adnewyddu contract boddhad dioddefwyr

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Ym mis Ebrill 2017, ymrwymodd CHTh i gytundeb gyda Heddlu Dyfed-Powys, gan ddarparu £20,000 y flwyddyn ar gyfer ymgymryd â gofynion Dychweliad Data Blynyddol y Swyddfa Gartref ar gyfer arolygu dioddefwyr trosedd a cham-drin domestig. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod CHTh wedi etifeddu dyletswydd yr Awdurdod Heddlu blaenorol wrth gychwyn y swydd er mwyn sicrhau yr ymgymerydd â'r swyddogaeth hon.

Mae cyfathrebu diweddar â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi cadarnhau nad oes gofyniad ffurfiol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau gael unrhyw gysylltiad â bodlonrwydd dioddefwyr, na rhoi arian ar gyfer hyn. Adlewyrchir hyn mewn heddluoedd eraill.

Gohiriwyd arolygon ffôn gan yr heddlu yn ystod y pandemig COVID-19, ac nid ydynt wedi ailgychwyn eto. Mae dioddefwyr y rhan fwyaf o droseddau'n derbyn arolygon drwy e-bost ar hyn o bryd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cynyddu cyfraddau ymateb a sicrhau bod adborth a dderbynnir drwy'r arolygon hyn yn cael ei fwydo'n briodol i mewn i welliannau busnes. Mae'r Heddlu hefyd yn ailystyried y strwythurau llywodraethu o gwmpas bodlonrwydd dioddefwyr ynghyd â'i gysylltiadau â gweithredu'r prosiect pen i ben.

Daw'r cytundeb rhwng CHTh a Heddlu Dyfed-Powys i ben ar 31 Mawrth 2022, a heb ofyniad ffurfiol i barhau, ynghyd â'r ffocws mewnol y mae'r Heddlu'n gosod ar fodlonrwydd dioddefwyr, argymhellir y dylid caniatáu i'r cytundeb hwn ddod i ben. Cynigir y dylai'r CHTh gynnwys bodlonrwydd dioddefwyr wrth graffu'n gyffredinol ar yr heddlu yn lle hynny, er mwyn ceisio sicrhwydd bod goruchwyliaeth briodol a rheolaeth perfformiad mewn grym.

Cadarnhawyd nad oes oblygiadau o ran trosglwyddo ymgymeriadau na diswyddiadau i'r CHTh eu hystyried. Mae'r cynnig hefyd wedi'i drafod ym Mwrdd Ymgynghorol Comisiynu CHTh, lle y cafodd ei gefnogi gan aelodau annibynnol.

Argymhelliad:

Bod CHTh yn caniatáu i'r cytundeb ar gyfer bodlonrwydd dioddefwyr gyda Heddlu Dyfed-Powys ddod i ben yn dilyn ei bwynt qadael presennol, sef 31 Mawrth 2022.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:

Dyddiad: 07/10/2021